**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

**17 Hydref 2018**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

# PROSIECT CYSYLLTIAD GOGLEDD CYMRU

**CAIS GAN Y GRID CENEDLAETHOL AM ORCHYMYN YN CANIATÁU DATBLYGU PROSIECT ISADEILEDD SYLWEDDOL CENEDLAETHOL**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth gefndirol mewn perthynas â chynlluniau'r Grid Cenedlaethol i osod cysylltiad grid o'r atomfa arfaethedig yn yr Wylfa i is-orsaf ym Mhentir, ger Bangor.

1.2 Mae'n amlinellu sail y cynlluniau a'r camau gweithredu sy'n rhan o broses archwilio'r cais gan yr Arolygiaeth Gynllunio, sy'n cynnwys rhoi gwybod i Gyngor Sir Ddinbych, fel awdurdod sy'n rhannu ffin weinyddol â Gwynedd, sef un o'r Siroedd lle bydd y gwaith datblygu yn cael ei gwblhau.

1.3 Mae'n ceisio penderfyniad aelodau ar weithredoedd y Cyngor mewn ymateb i ymgynghoriad ar y prosiect ac ymgysylltiad ag archwiliad ffurfiol o'r cais yn y dyfodol.

## 2. CEFNDIR.

2.1 Efallai bod aelodau yn ymwybodol bod cais wedi'i gyflwyno i Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Fusnes, Ynni, a Strategaeth Ddiwydiannol gan bŵer Niwclear Horizon, i ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd wedi'i leoli gyferbyn â'r orsaf bresennol yn Wylfa A, ar arfordir gogleddol Ynys Môn. Adwaenir y cynllun fel Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd, ac mae'n Brosiect Isadeiledd Sylweddol Cenedlaethol a fydd yn destun archwiliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn y man.

2.2 Bydd datblygiad Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa yn cynyddu'r angen am ddatblygiadau isadeiledd perthnasol. Un ohonynt yw darparu cysylltiad grid trydan ychwanegol. Mae'r cysylltiad yn destun cais prosiect Isadeiledd Sylweddol Cenedlaethol ar wahân, gan gynnwys llinell newydd o beilonau yn cydredeg â'r llinell bresennol dros Ynys Môn, adran dan ddaear islaw'r Afon Menai a chysylltiad i'r is-orsaf bresennol ym Mhentir, ger Bangor. Mae hwn yn gais wedi'i gyflwyno gan y Grid Cenedlaethol ac fe'i adwaenir fel prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru. Bydd yn destun archwiliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio.

2.3 Gellir gweld gwybodaeth ynghylch Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa a phrosiectau Cysylltiadau Gogledd Cymru, yn ogystal â datblygiad y ceisiadau ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio drwy ddilyn y ddolen isod
https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk

2.4 Mae Rheoliadau llywodraethu ar gyfer prosesu prosiectau isadeiledd o'r fath angen i ymgeiswyr gwblhau ymgynghoriadau / hysbysiadau penodol gyda chymunedau a effeithir, a'r Cynghorau Sir hynny sy'n rhannu ffin gweinyddol â'r Siroedd lle bydd y datblygiadau wedi'u lleoli. Oherwydd bod y datblygiadau yn cael effaith ar dir ger Pentir, Bangor, mae hyn yn cynnwys tir o fewn Cyngor Sir Gwynedd. Mae Gwynedd yn rhannu adran o ffin weinyddol â Sir Ddinbych i'r dwyrain o'r Bala, ac o ganlyniad, rhoddwyd gwybod i Sir Ddinbych ynghylch y cynlluniau yn ystod camau cychwynnol y cyflwyniad i'r Arolygiaeth Gynllunio.

2.5 Mae prosiect Cysylltiadau Gogledd Cymru wedi cyrraedd y cam lle mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi gofyn i Sir Ddinbych roi sylw ar ddigonolrwydd yr ymgynghoriad ar y cais, fel rhagarweiniad i ddechrau'r broses hir o Archwilio Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Er mwyn cydymffurfio â dyddiad cau cyflwyno'r sylwadau, anfonwyd yr ymateb sy'n Atodiad A o'r adroddiad i Swyddogion, yn cadarnhau eu bod wedi cyfathrebu yn berthnasol â Sir Ddinbych mewn perthynas â'r cynllun.

2.6 Wrth edrych ar y camau nesaf ar gyfer archwilio'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu, mae Swyddogion yn ceisio cytundeb aelodau ar y camau mwyaf priodol, oherwydd daeth i'r amlwg yn ystod craffu sylfaenol y cynlluniau cais, nad yw gosod cysylltiad llinell uwchben fel rhan o gynllun yr Wylfa yn achosi unrhyw broblem i Sir Ddinbych. Byddai'r rhan agosaf o'r datblygiad tua 40 cilomedr (24 milltir) o Sir Ddinbych. Mae pamffled wybodaeth Grid Cenedlaethol mewn perthynas â phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru ynghlwm yn Atodiad B, mae'n darparu gwybodaeth gefndirol ddefnyddiol ynghylch y cynllun a'r broses archwilio, gan gynnwys map yn dangos hyd y cysylltiad grid arfaethedig.

2.7 Dan amgylchiadau pan nad oes unrhyw effaith disgwyliedig ar y Sir, nid yw Swyddogion yn ystyried y byddai unrhyw bwrpas mewn ymgysylltu ymhellach ar y broses Archwilio, a fyddai'n golygu ymrwymo i baratoi Adroddiad Effaith Lleol manwl, yn ogystal â mynychu cyfarfod Rhagarweiniol a sesiynau Gwrandawiadau.

2.8 Argymhellir felly, oni bai bod aelodau yn ystyried bod unrhyw resymau penodol dros ymrwymo i'r broses Archwilio fanwl, er enghraifft yn nhermau'r effaith a gaiff y prosiect ar y Cyngor, bod y Swyddogion yn rhoi gwybod i'r Arolygiaeth Gynllunio ar yr adeg berthnasol nad yw'r Cyngor yn bwriadu cyfrannu ymhellach ar y broses.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Bod y Pwyllgor yn cytuno i Swyddogion roi gwybod i'r Arolygiaeth Gynllunio nad yw Cyngor Sir Ddinbych yn dymuno ymgysylltu ymhellach ar gam Archwilio'r prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru.

**EMLYN JONES PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**